

❖ GWEDDI'R ADFENT

Malachi 3:1–18

Ein Duw a'n Barnwr cyfiawn a thrugarog, caniatâ inni nesáu atat yn wylaidd a gostyngedig. Gwyddom mai felly y mae'n weddus inni ddyfod at dy Orsedd lân. Yn nhymor yr Adfent unwaith eto, gad inni ofyn 'wrth dy draed', a chael gwybod 'beth ym ni a phwy wyt Ti'. Cawn ein hatgoffa yn dy Air bod dy lygaid manwl yn treiddio i eigion calon dyn, ac nad oes dim a feddyliwn nac a wnawn yn anhysbys i Ti. 'Gwyddost gudd feddyliau'r galon a chrwydriadau mynych hon.' Ac oherwydd hynny yr ymbiliwn am dosturi dy galon ac ymgeledd dy ras.

Pan ystyriwn neges y tymor arbennig hwn a meddwl am ddyfodiad Crist eilwaith i farnu'r byd, ni allwn fod yn ddibris o'n cyflwr ysbrydol. Sonia'r emynydd am feiau mawr a mân, ond Ti yn unig fedd y gallu a'r awdurdod i fesur ein beiau, ac eiddot Ti y glorian i'w pwyso. Ein tuedd ni, Arglwydd, yw ceisio lleihau ein pechodau a mwynhau ein rhinweddau. Ond yng ngoleuni dy Orsedd y cawn olwg lawn arnom ein hunain. Yn ymyl dy sancteiddrwydd y gwelwn faint ein hannheilyngdod. Yn llewyrch dy wynepryd, datguddir inni feiau lle nad oedd feiau yn amlwg i ni, ac â yn fwy bechodau a gyfrifasom megis dim.

Pâr inni gofio bod pob dydd, ymhob tymor, yn ddydd barn, ac yn ddydd trugaredd hefyd. Dylai cofio hyn beri inni geisio dy faddeuant, a gofyn am ras i edifarhau.

Cyffeswn ger dy fron ein bod yn euog yn aml o roddi mwy o bwys ar ennill ffafr ddynol na cheisio rhyngu dy fodd di. Meddwl mwy am y farn gyhoeddus nag am wrando ar lef cydwybod. Bodloni ar rodd o barchusrwydd mewn cymdeithas yn hytrach na bod yn deyrngar i'r gwirionedd. Dewis clustog yn lle croes, a llonyddwch yn lle aberth. Bod yn barod i dderbyn safonau is na'r gorau.

Argraffa ar ein meddwl yn awr nad dedfryd dynion ond dy farn Di sydd o dragwyddol bwys i bawb ohonom, oherwydd dywed dy Air y bydd yn rhaid inni oll ymddangos gerbron brawdle Crist. Boed i hyn ddeffro ynom awydd i fyfyrion mwy ar dy Air. O wneud hyn, diau y cawn glywed sŵn traed ein Barnwr a'n Ceidwad yn dychwelyd, oherwydd 'rhaid iddo Ef deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed,' ac 'ni ddiffydd mo'i olau Ef, a'i Ysbryd nis dryllir hyd oni sefydlo drefn ar y ddaear.'

Anhrefn a welir heddiw, Arglwydd, a'r gelynyon ar eu traed. Yr ydym yn llygru'r amgylchedd, yn difwyno dy ddaear, yn llychwino dy greadigaeth. Haeddwn wialen dy gosbedigaeth. Pan fyddwn yn arswydo wrth glywed neu ddarllen am ein cyd-ddynion yn dioddef gormes a thrais, cofiwn ein bod yn rhan o'r ddynolryw a gollodd y ffordd i'th Ddinas Sanctaidd. Pan dristawn wrth glywed am y miloedd a mwy yn wynebu newyn oherwydd fod dyn yn codi cledd i ladd ei frawd, sylweddolwn nad dieuog neb ohonom, a'n bod yn perthyn i wareiddiad llygredig a gwywedig. Ni allwn ddianc rhag ein cyfrifoldeb personol.

Arwain ni drwy'r ystyriaethau hyn oll i weddio fel dy bobl gynt, 'Marana tha: O Arglwydd, tyred.' Amen.